**Eitem ar yr Agenda: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16eg Mawrth 2009**

## DIWEDDARIAD AR REOLI PARHAD BUSNES

**Adroddiad gan: Bill Murphy, Uwch Reolwr Gweithrediadau**

## Diben yr Adroddiad

1 I roi diweddariad i Aelodau o'r gwaith a wnaed hyd yn hyn ynghylch trefniadau i adnabod a chyfeirio at risgiau arwyddocaol i allu'r Awdurdod i ryddhau ei gyfrifoldebau statudol.

## Cefndir

2 Mae'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posib yn gofyn i Ymatebwyr Categori 1, megis y Gwasanaeth Tân ac Achub, gael trefniadau parhad busnes yn eu lle er mwyn sicrhau nad yw ei allu i gynorthwyo ymatebwyr Categori 1 eraill mewn digwyddiad mawr yn cael ei gyfaddawdu'n arwyddocaol. Hefyd, mae Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru yn disgwyl, a'r Archwiliad Asesu Cymheiriaid Sicrwydd Gweithredol, yn herio trefniadau Rheoli Parhad Busnes o fewn pob Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru.

3 Mae polisi'r Gwasanaeth ar Reoli Parhad Busnes, gyhoeddwyd ar 1af Hydref 2007 yn dilyn cadarnhad gan yr Awdurdod, yn darparu'r sail a'r fframwaith mae'r Gwasanaeth yn datblygu mesurau penodol i leihau effaith risgiau arwyddocaol megis absenoldeb staff, diffyg swyddogaethau, adeiladau neu systemau allweddol, gwasanaethau neu fethiannau cyflenwi.

## Gwybodaeth

4 Yn ystod 2008, fe gymrodd y Gwasanaeth ran mewn ymarfer Cymru gyfan oedd yn canolbwyntio ar effaith diffyg tanwydd cenedlaethol. Cyflwynwyd mesurau dilynol fydd yn sicrhau mynediad peiriannau tân a rheolwyr gweithredol i orsafoedd llenwi penodol, fydd yn cyflenwi'r gwasanaeth brys yn unig, gan helpu i liniaru'r aflonyddwch achoswyd gan y fath ddigwyddiad.

5 Mae gan y Gwasanaeth Gynllun Gorsaf Allweddol yn ei lle ac mewn digwyddiad o absenoldeb mawr staff fydd yn achosi nifer gyfyngedig o staff yn bod ar gael i griwio peiriannau tân, fe'i cyflwynir i sicrhau fod y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau sydd ar gael yn cael ei dargedu yn yr ardaloedd cywir, yn seiliedig ar broffil risg ardal y Gwasanaeth.

6 Yn ystod mis Ebrill 2009, bydd ymarfer Cymru gyfan sy'n canolbwyntio ar effaith pandemig ffliw yn profi trefniadau cynllunio'r Gwasanaeth ar gyfer y fath ddigwyddiad.

7 Mae swm arwyddocaol o waith wedi cael ei wneud eisoes wrth asesu a blaenoriaethu ystod eang o risgiau eraill i sicrhau fod rhaglen o fesurau rheoli yn eu lle i ostwng, symud neu drosglwyddo risg er mwyn cynnal gallu'r Awdurdod i gyflwyno ei swyddogaethau statudol.

8 Mae polisi'r Awdurdod ar Barhad Busnes yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ar sail prosiect tymor byr gan aelod penodol o staff. Bydd yr adolygiad yn cynnwys:

- codi ymwybyddiaeth o ddiwylliant Parhad Busnes a sut mae'n effeithio pob aelod o staff
- herio'r mesurau rheoli presennol ac edrych am gyfle i roi mesurau gwell yn eu lle
- cyflwyno trefn ymarfer strwythuredig i brofi effeithiolrwydd a chydnerth.

## Argymhelliad

9 Fod Aelodau yn nodi'r safle presennol parthed rheolaeth Parhad Busnes y Gwasanaeth.